**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 9fed Ebrill 2026 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Iwan Thomas ac Alwen Thomas.
Clerc: Denfer Morgan

**335 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Gary Evans a Helen Evans ynghyd â'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**336 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 12fed Mawrth 2026**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 12fed Mawrth 2026.

**337 Materion Cylidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

Tâl Aelodaeth Blynyddol Un Llais Cymru - £190

**338 Materion Cynllunio**

Nodwyd fod Gwasanaeth Gorfodaeth y Cyngor Sir yn trefnu archwilio'r datblygiad anawdurdodig yn Preswylfa, Ciliau Aeron.

**339 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Roedd y Clerc wedi rhannu'r gohebiaeth diweddaraf ynghyd â chopi o Gynllun y Gofrestfa Tir o'r Eglwys a'r fynwent. Yn anffodus, roedd e'n dangos fod yna ddarn o'r fynwent heb cael ei gofrestru a hwn oedd yn destun cais yr Eglwys i'r plwyfolion am dystiolaeth o'i ddefnydd fel rhan o'r fynwent.

Archwiliwyd y fynwent gan yr Aelodau cyn y cyfarfod a thynwyd lluniau ar gyfer cysylltu ymhellach gydag Awdurdodau'r Eglwys.

**PENDERFYNWYD** gymryd camau i bwyso ar Awdurdodau'r Eglwys i frysio eu harchwiliadau am dystiolaeth o'u perchnogaeth o'r tir.

**340 Cais am Gymorth Ariannol – Aberaeron Men's Shed**

Rhoddwyd ystyriaeth pellach i gais Aberaeron Men's Shed a **PHENDERFYNWYD** cyfrannu £100.

**341 Unrhyw Fater Arall**

Cytunwyd dwyn sylw'r Cyngor Sir at y canlynol:

- Ymchwilio i statws carafan ar eiddo y soniwyd amdano yn y cyfarfod yn Heol Llyswen
- Coeden yng Nghiliau Aeron yn gorhongian dros ran o'r A482
- Arwydd 'Ildiwch' ger Tŷ Mawr wedi dod yn rhydd ac yn gorwedd ar y llawr oddi tano
- Yr angen i glirio'r ffosydd ar yr allt yn arwain o'r Bont Newydd

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15pm